# Newport City Council SPF Investment Plan

## -- Community Development Grant Scheme 2025-2026

### Shared Prosperity Fund investment plan guidance:

**Local context:** an opportunity for places to set out their local evidence-based initiatives and expand opportunities for their communities and tackle local challenges through the lens of the investment priorities for UKSPF.

**Selection of outcomes and interventions:** each place will identify the outcomes they wish to prioritise based on their local context, under each of the UKSPF's investment priorities guidelines These choices should be clearly linked to local opportunities and challenges.

**Delivery:** this will represent the most detailed stage of the investment plans.

# Table of Contents

**LOCAL CONTEXT** .......... **2**
- SPF grant and Newport City Strategy .......... 2

**GRANT SCHEME, INTERVENTIONS AND TARGET OUTCOMES** .......... **2**
- Grant types and general rules .......... 2
- Who can apply .......... 3
- Grant sizes and value for money .......... 3
- Grants outcome criteria .......... 4
  - General criteria .......... 4
- Focus areas .......... 4
- Main SPF interventions considered: .......... 5
  - Communities and Place .......... 5

**APPLICATION PROCESS** .......... **6**
- APPLICATION TIMELINE .......... 6
  - First Window: .......... 6
  - Second Window: .......... 7
- APPLICANT EVALUATION METHOD .......... 7
- Evaluation process .......... 7
- Evaluation scoring .......... 7

**PROJECT SUCCESS AND OUTCOME EVALUATION METHOD** .......... **8**

# LOCAL CONTEXT

## SPF grant and Newport City Strategy

Newport City Council's (NCC) Shared Prosperity Fund (SPF) grant scheme for 2025-2026 continues to support Newport City's vision of becoming '*Ambitious, Fairer, Greener Newport For Everyone*'. The primary objectives of the SPF grant are to enhance social fabric and sense of local pride through investment in activities that strengthen physical, cultural and social ties and improve access to amenities. Additionally, the grant aims to build resilient, healthy and safe neighbourhoods and create innovative approaches to crime prevention.

The 2025-2026 grant scheme follows UKSPF's 'Communities and Place' and 'Healthy, Safe and Inclusive Communities' investment priorities, with a special focus on bringing communities together, tackling homelessness, environmental improvement, and breaking down barriers of opportunity. These interventions are aligned with the Newport City strategy and its supporting focus areas.

# GRANT SCHEME, INTERVENTIONS AND TARGET OUTCOMES

## Grant types and general rules

The 2025-2026 Community Development Grant Scheme supports a wide range of activities, interventions, and facilities that contribute to community building, Welsh culture preservation, environmental education, crime prevention, and breaking down barriers to opportunity. The grant can be used for both capital and revenue funding.

Grants are restricted to be used solely for the projects/activities presented in the application process. The projects must meet the outcome criteria and generic social value criteria presented below. The funds are intended to support new initiatives, and they cannot be used for projects that have already occurred, nor can funds be sought for ongoing projects or recurrent projects.

**Important**: This grant is for project funding only, not for core activities funding. Projects must demonstrate clear additionality – showing clear evidence that it is not simply a continuation of existing activities, and that the project would not happen without this grant. The grant scheme particularly welcomes innovative and experimental projects that test new concepts to benefit

Newport communities.

## Who can apply

This grant supports the Newport local community through activities and interventions run by voluntary sector organisations and social enterprises. Voluntary sector organisations, social enterprises, and either registered charities or unregistered community groups with leadership and bank account in place can apply as well. Schools may apply for funding for extracurricular activities that provide additional value beyond regular school programming. We also welcome collective applications where several organisations come together to create a larger project.

In some cases, SMEs, startups, and other commercial ventures can apply with projects meeting the grant criteria, provided they can demonstrate that the project itself is non-profit and separate from regular business cash flow. Funding would be considered for projects that provenly need subvention and risk mitigation in order to make them happen.

Organisations must be registered in Newport. In certain circumstances, organisations registered outside Newport may be eligible if they can demonstrate that:

1. Their project fulfils the additionality requirement
2. The beneficiaries are Newport residents
3. They can prove they will continue to operate in the Newport area, or leave a legacy
4. The activities serve Newport residents or benefit the environment within NCC borough.

## Grant sizes and value for money

Grant sizes vary from £1,000 - £10,000. In exceptional cases, higher values can be allocated if the activity demonstrates an exceptional combination of beneficiary reach, quality, and quantity of outcomes in respect to money spent. Applications must demonstrate strong value for money and a fair investment against planned deliverables.

Applicants should note that if seeking full funding for their project, they should clearly justify the budget requested. If the steering committee understands that they need to reconsider the project's budget, there will be a clarification period of one week when the applicant can send more information or lower the budget. Partial grants will not be allocated this round.

## Grants outcome criteria

### General criteria

The general criteria for all grants and their evaluation is that the interventions, projects, and activities proposed tackle inequality, are accessible, and reach those most affected by the cost-of-living crisis. They must contribute to the goal of creating equal opportunities for all people in Newport despite their socio-economic backgrounds, disabilities, sexual orientation, ethnicity, age, location, and health status. We are looking for innovative approaches, which can find alternative funding and continuance from other funding sources in the future.

Projects, events, and activities must consider their environmental impact and work to reduce waste and $CO_2$ generation within their capabilities and budget considerations. Activities can be targeted to any age group and culture, promoting equal opportunities throughout Newport.

## Focus areas

Projects applying for grants should address one or more of the following focus areas:

1. **Community Building and Welsh Culture**
    - Projects celebrating and promoting Welsh language, arts, culture, heritage, food, and traditional sports
    - Activities that enhance cultural identity of Newport and its citizens
    - Projects that bring diverse communities together
2. **Environmental Initiatives**
    - Environmental education programs, particularly those connecting children with nature
    - Projects that improve local environments and green spaces
    - Sustainable community initiatives
3. **Crime Prevention and Safety**
    - Programs addressing crime, bullying, and community safety
    - Activities that engage at-risk youth in positive alternatives
    - Initiatives that make public spaces safer and more welcoming
4. **Breaking Down Barriers to Opportunity**
    - Projects improving access to hobbies, culture, and recreation for disadvantaged groups
    - Initiatives that improve health and wellbeing as an indirect way of improving

opportunity

○ Programs that build skills and confidence in underserved communities ○ Activities that promote inclusion and accessibility

## Main SPF interventions considered:

### Communities and Place

There are two themes under the priority of Communities and Place, these are Healthy, Safe and Inclusive Communities, and Thriving Places.




Healthy, Safe and Inclusive Communities supports:

- Mission 1: Kickstart economic growth. Its scope includes development of the visitor economy, and high streets and town centres improvements.
- Mission 2: Make Britain a clean energy superpower
- Mission 3: Take back our streets
- Mission 4: Break down barriers to opportunity
- Mission 5: Build and NHS fit for the future

Its scope includes improving health and wellbeing, reducing crime and the fear of crime, bringing communities together and tackling homelessness. Thriving Places supports

# APPLICATION PROCESS

All applicants will apply for grants through the whatimpact.com grant management platform. Applicants must complete the following content on the platform:

1. Profile for their organisation,
2. Separate description for the project they are seeking funding for, and
3. Application form with additional qualifying questions to answer based on the information the steering committee requires.

Communication with any applicant, including their initial applications and awarding process, will be managed through the platform inbox system and a grant management dashboard tracking all data.

The whatimpact.com platform allows equal access to the grant opportunities for all applicants. The support of a local grant coordinator will be key for inclusion and accessibility, lending a 'human touch' element to the project management and helping with digital skills, language and project descriptions in general.

For community groups seeking advice on establishing themselves formally, Newport City Council will provide a simple one-page guide on setting up an unregistered community group, with particular focus on financial management requirements.

## APPLICATION TIMELINE

The grant application will have two windows:

### First Window:

- Launch week: 12th May 2025
- Application window: Open for 4 weeks
- Review period: 2 weeks following closure
- Project implementation: July - December 2025

### Second Window:

- Launch week: 22nd September 2025
- Application window: Open for 3 weeks until 13th October 2025
- Project implementation: October 2025 - January 2026

All projects, including delivery and reporting, must be completed by the end of February 2026. Drop-in sessions and webinars will be organised during the application windows to support potential applicants, with specific dates to be announced closer to the launch date.

# APPLICANT EVALUATION METHOD

## Evaluation process

The grant management process has been divided into two phases. The first phase involves evaluating the eligibility of the organisation, the suitability of the project, and other aspects are based on answers given to due diligence questions. This assessment is performed on the whatimpact.com platform by the whatimpact grant management team.

Applicants meeting the criteria will be forwarded to a special steering group dashboard (Grant Evaluation App = GEA), where the steering group will manage the evaluation, scoring, and potential requests for additional information. The steering group formed by members of the Newport City Council, and all stages of granting evaluation on this dashboard will record to ensure transparency and accountability.

## Evaluation scoring

Each application presented to the steering group will be scored in a collaborative manner. The steering group members always have access to the dashboard to make a preliminary review of each applicant. During the steering group meetings, the group will give official scores based on five scoring criteria on a scale from 1-5. This leads to a maximum score of 25 points. Each score will be supported by a qualitative comment explaining the value of the score.

The minimum requirement to be awarded a grant is 17 points overall, with a minimum of 3 points per category. If an applicant is close to reaching these score levels with an interesting project proposal, the steering group may offer feedback for the applicant to strengthen the application. If it is expected that the quality of the answers might not reach the minimum levels due to disability, language barrier, or lack of knowledge of technical terminology, the whatimpact grant management team will support the candidate organisation to ensure a clear communication of their proposal.

The 5 evaluation categories are the following:

| Category | REACH | LONGEVITY OF THE IMPACT | CREDIBLE PLAN | COST-VALUE | SOCIAL VALUE |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| Evaluation aspects | Geographical reach<br><br>Number of beneficiaries<br><br>Indirect reach | Lasting outcome<br><br>Continuity/ future potential | Realistic<br><br>Achievable<br><br>Credible | Reasonable cost<br><br>Fair investment against planned deliverables | Tackling inequality<br><br>Improved wellbeing<br><br>Poverty<br><br>Environmentally friendly |

Scoring levels: 1 = Does not meet criteria 2 = Somewhat meets criteria 3 = Meets criteria 4 = Surpasses criteria 5 = Exceeds criteria

Applicants who have received funding in round 1 will be considered in exceptional circumstances, based on their track record, and high levels of additionality being proposed.

Subject to extenuating circumstances and based on the first-round data, a maximum award of £10,000 per applicant be set for the second round of grant funding.

## PROJECT SUCCESS AND OUTCOME EVALUATION METHOD

The SPF team will evaluate the success of the grant scheme by monitoring quarterly cumulative figures in terms of numbers of grants under £30,000 awarded for reporting to Rhondda Cynon Taff County Borough Council (RCT). The outcome to be claimed from RCT for grants under £30,000 is '*Number of events or local activities supported*'.

In addition, Newport City Council has decided to monitor a broad range of KPIs and qualitative data to analyse the impact of the grant scheme for the wellbeing of the communities supported

by grant funded activities. Each project will be analysed based on SPF Communities and Place Themes and Sub-themes.

The whatimpact.com platform offers a reporting tool that is aligned with the 'social impact logic model theory'. It is available for all grantees to use to report back on their outputs, outcomes, impact, and case studies. The tool allows funded VCSEs to pinpoint their proven outputs and outcomes to specific SPF Themes and Sub-themes by using the tool. This semi-automated reporting tool will be filled with information the grantees have gathered regarding their project during delivery. This reporting will be shared on the steering group dashboard, where also grant amounts and numbers are monitored.

To create consistency across different types of projects, a mutual system to record participant satisfaction and engagement will be implemented, such as QR code scanning or simple feedback mechanisms (smiley face vs. sad face vs. neutral face).

Reporting deadlines:

- First and second round projects: December 31, 2025
- Impact reports: January 31, 2026
- Project closure including all delivery and reporting: February/March 2026

All project-based impact reports will be evaluated in quantitative, qualitative, and SPF target outcome points of view by the end of the SPF scheme. There will be an auditable steering group dashboard with all project details, evaluations, and outcomes to be reviewed, as well as a final report delivered by the whatimpact grant management team.

The final report will present case studies and success stories in a visually engaging format with infographics and dashboard appearance for easier understanding and communication of impact.

# Cynllun Buddsoddi CFfG Cyngor Dinas Casnewydd -- Cynllun Grant Datblygu Cymunedol 2025-2026

## Canllawiau cynllun buddsoddi'r Gronfa Ffyniant Gyffredin:

**Cyd-destun lleol:** cyfle i leoedd nodi eu mentrau lleol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ehangu cyfleoedd i'w cymunedau a mynd i'r afael â heriau lleol trwy lens y blaenoriaethau buddsoddi ar gyfer CFfGDU.

**Dewis o ganlyniadau ac ymyriadau:** bydd pob lle yn nodi'r canlyniadau y maent am eu blaenoriaethu yn seiliedig ar eu cyd-destun lleol, o dan bob un o ganllawiau blaenoriaethau buddsoddi CFfGDU. Dylai'r dewisiadau hyn fod wedi'u cysylltu'n glir â chyfleoedd a heriau lleol.

**Darpariaeth:** bydd hyn yn cynrychioli cam mwyaf manwl y cynlluniau buddsoddi.

## Tabl Cynnwys

**LOCAL CONTEXT** .......... **2**
SPF grant and Newport City Strategy .......... 2
**GRANT SCHEME, INTERVENTIONS AND TARGET OUTCOMES** .......... **2**
Grant types and general rules .......... 2
Who can apply .......... 3
Grant sizes and value for money .......... 3
Grants outcome criteria .......... 4
General criteria .......... 4
Focus areas .......... 4
Main SPF interventions considered: .......... 5
Communities and Place .......... 5
**APPLICATION PROCESS** .......... **6**
APPLICATION TIMELINE .......... 6
First Window: .......... 6
Second Window: .......... 7
APPLICANT EVALUATION METHOD .......... 7
Evaluation process .......... 7
Evaluation scoring .......... 7
**PROJECT SUCCESS AND OUTCOME EVALUATION METHOD** .......... **8**

# Y CYD-DESTUN LLEOL

## Grant CFfG a Strategaeth Dinas Casnewydd

Mae cynllun grant Cronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG) Cyngor Dinas Casnewydd (CDC) ar gyfer 2025-2026 yn parhau i gefnogi gweledigaeth Dinas Casnewydd o ddod yn '*Gasnewydd Uchelgeisiol, Decach, Wyrddach i Bawb'*. Prif amcanion y grant CFfG yw gwella gwead cymdeithasol ac ymdeimlad o falchder lleol trwy fuddsoddi mewn gweithgareddau sy'n cryfhau cysylltiadau corfforol, diwylliannol a chymdeithasol ac yn gwella mynediad at amwynderau. Yn ogystal, nod y grant yw adeiladu cymdogaethau gwydn, iach a diogel a chreu dulliau arloesol o atal troseddu.

Mae cynllun grant 2025-2026 yn dilyn blaenoriaethau buddsoddi 'Cymunedau a Lle' a 'Chymunedau Iach, Diogel a Chynhwysol' CFfGDU, gyda ffocws arbennig ar ddod â chymunedau at ei gilydd, mynd i'r afael â digartrefedd, gwelliannau amgylcheddol, a chwalu rhwystrau i gyfleoedd. Mae'r ymyriadau hyn yn cyd-fynd â strategaeth Dinas Casnewydd a'i meysydd ffocws ategol.

# CYNLLUN GRANT, YMYRIADAU A CHANLYNIADAU TARGED

## Mathau o grantiau a rheolau cyffredinol

Mae Cynllun Grant Datblygu Cymunedol 2025-2026 yn cefnogi ystod eang o weithgareddau, ymyriadau a chyfleusterau sy'n cyfrannu at adeiladu cymunedau, gwarchod diwylliant Cymru, addysg amgylcheddol, atal troseddu, a chwalu rhwystrau i gyfleoedd. Gellir defnyddio'r grant fel cyllid cyfalaf a refeniw.

Mae grantiau'n gyfyngedig sy'n golygu bod yn rhaid eu defnyddio ar gyfer y prosiectau/gweithgareddau a gyflwynir yn y broses ymgeisio yn unig. Rhaid i'r prosiectau fodloni'r meini prawf canlyniadau a'r meini prawf gwerth cymdeithasol cyffredinol a gyflwynir isod. Bwriad y cyllid yw cefnogi mentrau newydd, ac ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau sydd eisoes wedi digwydd, ac ni ellir gwneud cais am arian ar gyfer prosiectau parhaus neu brosiectau rheolaidd.

**Pwysig:** Mae'r grant hwn ar gyfer cyllid prosiect yn unig, nid ar gyfer cyllid gweithgareddau craidd. Rhaid i brosiectau ddangos ychwanegedd clir – gan ddangos tystiolaeth glir nad yw ond yn barhad o weithgareddau presennol, ac na fyddai'r prosiect yn digwydd heb y grant hwn.

Mae'r cynllun grant yn croesawu'n arbennig brosiectau arloesol ac arbrofol sy'n profi cysyniadau newydd er budd cymunedau Casnewydd.

## Pwy all wneud cais

Mae'r grant hwn yn cefnogi cymuned leol Casnewydd drwy weithgareddau ac ymyriadau sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau sector gwirfoddol a mentrau cymdeithasol. Gall sefydliadau sector gwirfoddol, mentrau cymdeithasol, ac elusennau cofrestredig neu grwpiau cymunedol anghofrestredig gydag arweinyddiaeth a chyfrif banc ar waith wneud cais hefyd. Gall ysgolion wneud cais am gyllid ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol sy'n creu gwerth ychwanegol y tu hwnt i raglenni ysgol arferol. Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau ar y cyd lle mae sawl sefydliad yn dod at ei gilydd i greu prosiect mwy.

Mewn rhai achosion, gall busnesau bach a chanolig, busnesau newydd, a mentrau masnachol eraill wneud cais gyda phrosiectau sy'n bodloni'r meini prawf grant, ar yr amod y gallant ddangos bod y prosiect ei hun yn ddi-elw ac ar wahân i lif arian busnes rheolaidd. Byddai cyllid yn cael ei ystyried ar gyfer prosiectau y mae angen cymhorthdal a mesurau lliniaru risg arnynt i’w galluogi i ddigwydd.

Rhaid i sefydliadau fod wedi'u cofrestru yng Nghasnewydd.  Mewn rhai amgylchiadau, gall sefydliadau sydd wedi'u cofrestru y tu allan i Gasnewydd fod yn gymwys os gallant ddangos:

1. Bod eu prosiect yn bodloni'r gofyniad ychwanegedd
2. Mai’r buddiolwyr yw trigolion Casnewydd
3. Y byddant yn parhau i weithredu yn ardal Casnewydd, neu’n gadael etifeddiaeth
4. Bod y gweithgareddau’n gwasanaethu trigolion Casnewydd neu o fudd i'r amgylchedd ym mwrdeistref CDC.

## Meintiau grant a gwerth am arian

Mae maint y grant yn amrywio o £1,000 - £10,000. Mewn achosion eithriadol, mae dyraniadau o werth uwch yn bosibl os yw'r gweithgaredd yn dangos cyfuniad eithriadol o gyrhaeddiad i fuddiolwyr, ansawdd a maint canlyniadau mewn perthynas â'r arian a wariwyd. Rhaid i geisiadau ddangos gwerth cryf am arian a buddsoddiad teg yn erbyn cyflawniadau a gynlluniwyd.

Dylai ymgeiswyr nodi, os ydynt yn ceisio cyllid llawn ar gyfer eu prosiect, y dylent gyfiawnhau'r

gyllideb y gofynnwyd amdani’n glir. Os yw'r pwyllgor llywio ar ddeall bod angen iddynt ailystyried cyllideb y prosiect, bydd cyfnod eglurhad o wythnos pan fydd yr ymgeisydd yn gallu anfon mwy o wybodaeth neu ostwng y gyllideb.  Ni ddyrennir grantiau rhannol yn y rownd hon.

## Meini prawf canlyniadau grant

### Meini prawf cyffredinol

Y meini prawf cyffredinol ar gyfer pob grant a'i werthusiad, yw bod yr ymyriadau, y prosiectau a'r gweithgareddau a gynigir yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, yn hygyrch ac y byddant yn cyrraedd y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng costau byw.  Rhaid iddynt gyfrannu at y nod o greu cyfleoedd cyfartal i bawb yng Nghasnewydd waeth beth fo’u cefndir economaidd-gymdeithasol, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd, oedran, lleoliad a statws iechyd.  Rydym yn chwilio am ddulliau arloesol, a all ddod o hyd i gyllid amgen a pharhad o ffynonellau cyllido eraill yn y dyfodol.

Rhaid i brosiectau, digwyddiadau a gweithgareddau ystyried eu heffaith amgylcheddol a gweithio i leihau gwastraff a chynhyrchiant CO2 o fewn eu galluoedd a'u hystyriaethau cyllideb. Gellir targedu gweithgareddau at unrhyw grŵp oedran a diwylliant, gan hyrwyddo cyfle cyfartal ledled Casnewydd.

## Meysydd ffocws

Dylai prosiectau sy'n gwneud cais am grantiau fynd i'r afael ag un neu fwy o'r meysydd ffocws canlynol:

1. **Adeiladu Cymunedol a Diwylliant Cymru**
    - Prosiectau sy'n dathlu a hyrwyddo'r Gymraeg, y celfyddydau, diwylliant, treftadaeth, bwyd a chwaraeon traddodiadol
    - Gweithgareddau sy'n gwella hunaniaeth ddiwylliannol Casnewydd a'i dinasyddion
    - Prosiectau sy'n dod â chymunedau amrywiol at ei gilydd
2. **Mentrau Amgylcheddol**
    - Rhaglenni addysg amgylcheddol, yn enwedig y rhai sy'n cysylltu plant â natur
    - Prosiectau sy'n gwella amgylcheddau lleol a mannau gwyrdd
    - Mentrau cymunedol cynaliadwy
3. **Atal Troseddau a Diogelwch**
    - Rhaglenni sy'n mynd i'r afael â throseddu, bwlio, a diogelwch cymunedol
    - Gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb pobl ifanc mewn perygl mewn dewisiadau

amgen cadarnhaol

○ Mentrau sy'n gwneud mannau cyhoeddus yn fwy diogel a chroesawgar

4. **Chwalu Rhwystrau i Gyfleoedd**

○ Prosiectau sy'n gwella mynediad at hobïau, diwylliant a hamdden i grwpiau difreintiedig

○ Mentrau sy'n gwella iechyd a lles fel ffordd anuniongyrchol o wella cyfleoedd

○ Rhaglenni sy'n meithrin sgiliau a hyder mewn cymunedau difreintiedig ○ Gweithgareddau sy'n hyrwyddo cynhwysiant a hygyrchedd

## Prif ymyriadau CFfG a ystyriwyd:

### Cymunedau a Lle

Mae dwy thema o dan y flaenoriaeth Cymunedau a Lle; y rhain yw Cymunedau Iach, Diogel a Chynhwysol, a Lleoedd Ffyniannus.




Mae Cymunedau Iach, Diogel a Chynhwysol yn cefnogi:

- Cenhadaeth 1: Sbarduno twf economaidd. Mae ei chwmpas yn cynnwys datblygu'r economi ymwelwyr, a gwelliannau i strydoedd mawr a chanol trefi.
- Cenhadaeth 2: Gwneud Prydain yn uwch-bŵer o ran ynni glân
- Cenhadaeth 3: Cymryd rheolaeth yn ôl o'n strydoedd

- Cenhadaeth 4:  Chwalu'r rhwystrau i gyfleoedd
- Cenhadaeth 5:  Adeiladu GIG sy'n addas at y dyfodol

Mae ei chwmpas yn cynnwys gwella iechyd a lles, lleihau troseddu a’r ofn o droseddu, dod â chymunedau at ei gilydd a mynd i'r afael â digartrefedd. Mae Lleoedd Ffyniannus yn cefnogi

## PROSES YMGEISIO

Bydd pob ymgeisydd yn gwneud cais am grantiau drwy'r platfform rheoli grantiau whatimpact.com. Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r cynnwys canlynol ar y platfform:

1. Proffil ar gyfer eu sefydliad,
2. Disgrifiad ar wahân ar gyfer y prosiect y maent yn ceisio cyllid ar ei gyfer, a
3. Ffurflen gais gyda chwestiynau cymhwyso ychwanegol i'w hateb yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ei hangen ar y pwyllgor llywio.

Bydd cyfathrebu ag unrhyw ymgeisydd, gan gynnwys eu ceisiadau cychwynnol a'u proses ddyfarnu, yn cael ei reoli trwy system mewnflwch a dangosfwrdd rheoli grantiau’r platfform sy'n tracio’r holl ddata.

Mae'r platfform whatimpact.com yn caniatáu mynediad cyfartal i'r cyfleoedd grant i bob ymgeisydd. Bydd cefnogaeth cydlynydd grant lleol yn allweddol ar gyfer cynhwysiant a hygyrchedd, gan ddod ag ‘elfen ddynol’ i’r gwaith rheoli prosiect a helpu gyda sgiliau digidol, iaith a disgrifiadau prosiectau yn gyffredinol.

Ar gyfer grwpiau cymunedol sy'n ceisio cyngor ar sefydlu eu hunain yn ffurfiol, bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn darparu canllaw un dudalen syml ar sefydlu grŵp cymunedol anghofrestredig gyda ffocws penodol ar ofynion rheoli ariannol.

## LLINELL AMSER YMGEISIO

Bydd gan y cais am grant ddwy ffenestr:

### Ffenestr Gyntaf:

- Wythnos lansio: 12 Mai 2025
- Ffenestr ymgeisio:  Ar agor am 4 wythnos
- Cyfnod adolygu: 2 wythnos ar ôl cau
- Gweithredu'r prosiect: Gorffennaf - Rhagfyr 2025

**Ail Ffenestr:**

- Wythnos lansio: 22 Medi 2025
- Ffenestr ymgeisio: Ar agor am 3 wythnos tan 13 Hydref 2025
- Gweithredu'r prosiect: Hydref 2025 - Ionawr 2026

Rhaid cwblhau pob prosiect, gan gynnwys cyflwyno ac adrodd, erbyn diwedd Chwefror 2026. Bydd sesiynau galw heibio a gweminarau yn cael eu trefnu yn ystod y ffenestri ymgeisio i gefnogi darpar ymgeiswyr, gyda dyddiadau penodol i'w cyhoeddi yn agosach at y dyddiad lansio.

# DULL GWERTHUSO YMGEISYDD

## Y broses werthuso

Mae'r broses rheoli grantiau wedi'i rhannu'n ddau gam. Mae'r cam cyntaf yn cynnwys gwerthuso cymhwysedd y sefydliad ac addasrwydd y prosiect, ac mae agweddau eraill yn seiliedig ar atebion a roddir i gwestiynau diwydrwydd dyladwy. Mae'r asesiad hwn yn cael ei berfformio ar y platfform whatimpact.com gan dîm rheoli grantiau whatimpact.

Bydd ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf yn symud ymlaen i ddangosfwrdd grŵp llywio arbennig (Ap Gwerthuso Grant = GEA), lle bydd y grŵp llywio yn rheoli'r gwerthuso, sgorio, a cheisiadau posibl am wybodaeth ychwanegol. Bydd y grŵp llywio’n cael ei ffurfio gan aelodau o Gyngor Dinas Casnewydd, a chofnodir pob cam gwerthuso ar y dangosfwrdd hwn er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.

## Sgôr gwerthuso

Bydd pob cais a gyflwynir i'r grŵp llywio yn cael ei sgorio mewn modd cydweithredol. Mae gan aelodau'r grŵp llywio fynediad i'r dangosfwrdd bob amser i gynnal adolygiad rhagarweiniol o bob ymgeisydd. Yn ystod cyfarfodydd y grŵp llywio, bydd y grŵp yn rhoi sgoriau swyddogol yn seiliedig ar bum maen prawf sgorio ar raddfa o 1-5. Mae hyn yn arwain at uchafswm sgôr o 25 pwynt. Bydd pob sgôr yn cael ei hategu gan sylw ansoddol sy'n esbonio gwerth y sgôr.

Yr isafswm gofyniad i dderbyn grant yw cyfanswm o 17 pwynt, gydag isafswm o 3 phwynt fesul categori. Os yw ymgeisydd yn agos at gyrraedd y lefelau sgôr hyn gyda chynnig prosiect diddorol, gall y grŵp llywio gynnig adborth i'r ymgeisydd i gryfhau'r cais. Os disgwylir efallai na fydd ansawdd yr atebion yn cyrraedd y lefelau gofynnol oherwydd anabledd, rhwystr iaith, neu ddiffyg gwybodaeth am derminoleg dechnegol, bydd tîm rheoli

grantiau whatimpact yn cefnogi'r sefydliad ymgeisiol i sicrhau y cyfathrebir eu cynnig yn glir.

Y 5 categori gwerthuso yw:

| Categori | CYRHAEDDIAD | HIRHOEDLEDD EFFAITH | CYNLLUN CREDADWY | COST-GWERTH | GWERTH CYMDEITHASOL |
|---|---|---|---|---|---|
| Agweddau gwerthuso | Cyrhaeddiad daearyddol<br><br>Nifer y buddiolwyr<br><br>Cyrhaeddiad anuniongyrchol | Canlyniad parhaol<br><br>Parhad/ potensial ar gyfer y dyfodol | Realistig<br><br>Cyraeddadwy<br><br>Credadwy | Cost resymol<br><br>Buddsoddiad teg yn erbyn yr hyn y gellir ei gyflawni | Trechu anghydraddoldeb<br><br>Gwella lles<br><br>Tlodi<br><br>Ecogyfeillgar |

Lefelau sgorio: 1 = Ddim yn bodloni’r meini prawf 2 = Yn bodloni’r meini prawf rhywfaint 3 = Yn bodloni’r meini prawf 4 = Yn rhagori ar y meini prawf 5 = Yn rhagori ar y meini prawf yn hawdd

Bydd ymgeiswyr sydd wedi derbyn cyllid yn rownd 1 yn cael eu hystyried mewn amgylchiadau eithriadol, yn seiliedig ar eu hanes, a lefelau uchel o ychwanegedd yn cael eu cynnig.

Yn amodol ar amgylchiadau lliniarol ac yn seiliedig ar ddata'r rownd gyntaf, mae uchafswm dyfarniad o £10,000 fesul ymgeisydd wedi'i osod ar gyfer yr ail rownd o gyllid grant.

## DULL GWERTHUSO LLWYDDIANT A CHANLYNIADAU PROSIECT

Bydd y tîm CFfG yn gwerthuso llwyddiant y cynllun grant drwy fonitro ffigurau cronnol

chwarterol o ran nifer y grantiau o dan £30,000 a ddyfarnwyd ar gyfer adrodd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT). Y canlyniad i'w hawlio gan RhCT ar gyfer grantiau o dan £30,000 yw '*Nifer y digwyddiadau neu weithgareddau lleol a gefnogir*'.

Yn ogystal, mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi penderfynu monitro ystod eang o ddangosyddion perfformiad allweddol a data ansoddol i ddadansoddi effaith y cynllun grant ar les y cymunedau a gefnogir gan weithgareddau a ariennir gan grantiau. Bydd pob prosiect yn cael ei ddadansoddi yn seiliedig ar Themâu Cymunedau a Lle ac Is-themâu CFfG.

Mae'r platfform whatimpact.com yn cynnig offeryn adrodd sy'n cyd-fynd â'r 'theori model rhesymeg effaith gymdeithasol'. Mae ar gael i bob deiliad grant ei ddefnyddio i adrodd yn ôl ar ei allbynnau, canlyniadau,
effaith ac astudiaethau achos. Mae'r offeryn yn caniatáu i MGCChau a ariennir ddosbarthu eu hallbynnau a'u canlyniadau cadarn i Themâu ac Is-themâu CFfG penodol trwy ddefnyddio'r offeryn. Bydd yr offeryn adrodd lled-awtomataidd hwn yn cael ei lenwi â gwybodaeth y mae'r deiliaid grant wedi'i chasglu ynglŷn â'u prosiect yn ystod y cyflawni. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei rannu ar ddangosfwrdd y grŵp llywio, lle hefyd mae symiau a rhifau grant yn cael eu monitro.

Er mwyn creu cysondeb ar draws gwahanol fathau o brosiectau, bydd system gydfuddiannol i gofnodi boddhad ac ymgysylltiad cyfranogwyr yn cael ei gweithredu, fel sganio cod QR neu fecanweithiau adborth syml (wyneb hapus v. wyneb trist v. wyneb niwtral).

Dyddiadau cau ar gyfer adrodd:

- Prosiectau rownd gyntaf ac ail rownd: 31 Rhagfyr 2025
- Adroddiadau effaith: 31 Ionawr 2026
- Cau prosiect gan gynnwys yr holl gyflenwi ac adrodd: Chwefror/Mawrth 2026

Bydd pob adroddiad effaith sy’n seiliedig ar brosiect yn cael ei werthuso o safbwyntiau canlyniadau targed meintiol, ansoddol a CFfG erbyn diwedd y cynllun CFfG. Bydd yna ddangosfwrdd grŵp llywio y gellir ei archwilio, yn cynnwys yr holl fanylion, gwerthusiadau a chanlyniadau prosiect i'w hadolygu, yn ogystal ag adroddiad terfynol a gyflwynir gan dîm rheoli grantiau whatimpact.

Bydd yr adroddiad terfynol yn cyflwyno astudiaethau achos a straeon llwyddiant mewn fformat gweledol diddorol gyda ffeithluniau ac ymddangosiad dangosfwrdd i alluogi dealltwriaeth well a chyfathrebu’r effaith yn haws.